

Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

SoNaRR2020 Cofrestr tir fferm amgaeedig asesiad o SMNR

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chyingor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith dystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein dystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein dystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 Cofrestr tir fferm amgaeedig asesiad o SMNR**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae'r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

Crynodeb Gweithredol. Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol. Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwyledig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Acronymau a Rhestr Termau. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 Cofrestr tir fferm amgaaedig asesiad o SMNR. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#)

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordians.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

Tir Fferm Caeedig

Cofrestr Adnoddau Naturiol

Asesiad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 1: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 1.1 Glastir – cynllun rheoli tir cynaliadwy.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.2 Ystlumod pedol mwyaf – nodwyd tueddiadau cadarnhaol mewn goroesiad a thwf poblogaeth.
Asesiad hyder: Uchel

Nod 1: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 1.3 Glastir – cynllun rheoli tir cynaliadwy. Mae maint y tir o fewn y cynllun wedi lleihau rhwng 2018 a 2019.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.4 O'r 1,467 o blanhigion blodeuol yn fflora Cymru, mae 38 wedi diflannu ac ystyrir bod 302 (20.6%) dan fygythiad neu bron dan fygythiad yng Nghymru, ac mae 95% ohonynt yn tyfu ar dir fferm cynhyrchiol.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.5 Planhigion â'r gwyllt yw'r grŵp o blanhigion sy'n dirywio gyflymaf.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.6 Mae llawer o rywogaethau o beillwyr gwyllt, gan gynnwys cacwn, gwenyn unig a phryfed hofran, dan fygythiad.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.7 Mae gwasgariad y brithribin brown wedi lleihau 43% o ran maint ers y 1970au ac mae poblogaethau sy'n cael eu monitro yng Nghymru yn dangos gostyngiadau mawr yn ddiweddar.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.8 Rhwng 1995 a 2016, mae drudwennod wedi gostwng 72%, gylfinirod 63% a breision melyn 58%, ac mae'r durdur a bras yr yd bron â diflannu fel adar bridio yng Nghymru.
Asesiad hyder: Uchel

- 1.9 Mae pH y pridd a gofnodwyd ar laswelltir wedi'i wella bellach yn is na'r pH gorau o 6.0 ar gyfer tyfiant glaswellt.
Asesiad hyder: Canolig
- 1.10 O'r bennod Defnydd Tir a Phriddoedd: Erydiad Pridd – Amcangyfrifon o gyfraddau erydu blynyddol o rhwng 0.54 ac 1.37 t/hectar/blwyddyn ar laswelltir yn y DU, rhwng 0.1 a 10 t/hectar/blwyddyn ar dir wedi'i drin yn y DU, a rhwng 10 a 200 t/hectar/blwyddyn ar briddoedd noeth yn y DU (Nicholson ac eraill, 2020).
Asesiad hyder: Isel

Nod 2: Ecosystemau gwydn

Nod 2: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 2.1 O'r bennod Gwytnwch Ecosystemau – Mae tir â'r a gwrychoedd wedi dangos colledion hanesyddol sydd bellach naill ai wedi sefydlogi neu wedi cynyddu rhywfaint, felly ystyrir bod eu maint yn ganolig.

Nod 2: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 2.2 Yn 2019, nodwyd bod 113 o gyrff dŵr ledled Cymru yn methu diwallu safonau Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr sy'n gysylltiedig â gweithgareddau amaethyddol (Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau Cyfoeth Naturiol Cymru, 2019).
Asesiad hyder: Uchel
- 2.3 Mae amrywiaeth mewn systemau â'r dwys yn isel iawn.
Asesiad hyder: Canolig
- 2.4 O'r bennod Gwytnwch Ecosystemau – Mae amrywiaeth ond yn isel mewn cynefinoedd eraill sydd wedi'u haddasu, fel caeau â'r a thir wedi'i wella'n amaethyddol lle mae rheolaeth ddwys wedi canolbwyntio ar drin nifer fach o rywogaethau.
- O'r bennod Gwytnwch Ecosystemau – Roedd tir wedi'i wella'n amaethyddol yn uchel o ran ehangder a chysylltedd. Isel o ran amrywiaeth a chyflwr. Roedd caeau â'r yn ganolig o ran ehangder ac yn isel mewn cysylltedd. Isel o ran amrywiaeth a chyflwr.
Asesiad hyder: Uchel
 - Roedd amrywiaeth mewn gwrychoedd yn amrywiol ond yn ganolig o ran ehangder, yn isel mewn cyflwr ac yn ganolig o ran cysylltedd.
Asesiad hyder: Uchel
 - Roedd tir parc a phorfa goediog yn uchel o ran amrywiaeth, yn isel o ran ehangder a chyflwr, ac yn ganolig i isel o ran cysylltedd.
Asesiad hyder: Isel
 - Roedd perllannau traddodiadol yn uchel mewn amrywiaeth ond yn sgorio'n isel am y tri phriodoledd arall, sef ehangder, cyflwr a chysylltedd
Asesiad hyder: Canolig

- 2.5 Mae defnydd tir dwys yn dylanwadu'n negyddol ar gyfoeth anifeiliaid ond nid yw priodweddau pridd yn effeithio arno (George ac eraill, 2019; Cymdeithas y Pridd, 2019; Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol, 2019; IBPES, 2016).
Asesiad hyder: Uchel

Nod 3: Lleoedd iach i bobl

Nod 3: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 3.1 Rhwng 2016 a 2019, roedd 1,300 hectar o goetiroedd newydd wedi'u creu gan ddefnyddio cyllid grant yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020).
Asesiad hyder: Uchel
- 3.2 Mae Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol wedi ymrwmo i gyflawni'r argymhellion a nodwyd gan yr aelodau i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol a chael gwared ohono.

Nod 3: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 3.3 Yn 2018, amcangyfrifir bod amaethyddiaeth wedi cyfrannu tua 14% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Methan (62%) ac ocsid nitraidd (28%) sy'n dominyddu'r rhain, gyda dim ond 10% o allyriadau'r sector yn garbon deuocsid (Llywodraeth Cymru, 2019b; Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, 2020).
Asesiad hyder: Uchel
- 3.4 Mae amaethyddiaeth yn cyfrif am oddeutu 60% o nitradau mewn afonydd (Hunt ac eraill, 2004).
Asesiad hyder: Canolig
- 3.5 Mae amaethyddiaeth hefyd yn un o brif ffynonellau ffosfforws, y prif faethyn sy'n gyfrifol am ewtroffigedd mewn dŵr croyw (Jarvie ac eraill, 2010).
Asesiad hyder: Uchel
- 3.6 Mae ffynonellau amaethyddol yn gyfrifol am 91% o allyriadau amonia, gyda rheoli tail gwartheg yn unig yn cyfrif am dros 35% o'r allyriadau.
Asesiad hyder: Canolig
- 3.7 Yn 2018, cyfanswm y slwtsh carthion wedi'i drin a gynhyrchwyd ac a daenwyd ar dir amaethyddol yng Nghymru oedd 43,194 tonnell o solidau sych wedi'u gwasgaru dros arwynebedd o 7,844 hectar (Dŵr Cymru, 2019).
Asesiad hyder: Uchel

Nod 4: Economi adfywiol

Nod 4: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 4.1 Roedd arwynebedd o 67,057 hectar o dir yng nghontractau organig Glastir ar gyfer trosi a chynnal a chadw yn 2019 (fffigurau Llywodraeth Cymru).
Asesiad hyder: Uchel

Nod 4: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 4.2 Cyfanswm y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a gollwyd dros y cyfnod 1939 i 2011 oedd 21,300 hectar (6.7% o'r adnodd).
Asesiad hyder: Uchel
- 4.3 Rhagwelir y bydd argaeledd dŵr wedi newid oherwydd y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r risg o gyfnodau hir o dywydd sych sy'n fwy aml, ac y bydd mwy o risg o ddirlawnder pridd, dŵr llonydd a llifogydd.
Asesiad hyder: Uchel
- 4.4 Dim dangosyddion cytunedig ar gyfer mesur ac adrodd ar gyflwr y pridd.
- 4.5 Gallai'r cynnydd mewn cynhyrchu india-corn yng Nghymru arwain at erydu yn y pridd gyda braenar noeth ar adegau anffafriol. Gall trosi glaswelltir yn dir â'r gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr.
Asesiad hyder: Isel
- 4.6 O'r bennod Defnydd Tir a Phriddoedd – Addasu ac arloesi arferion cyfredol a chadwyni cyflenwi i wella cynhyrchiant a gwytnwch systemau cynhyrchu amaethyddol.
Asesiad hyder: Canolig